OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 283

# Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig, Ffioedd a Ffioedd am Geisiadau Tybiedig) (Cymru) (Diwygio) 2019

**Diwygiadau i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015**

**4.**—(1) Mae rheoliad 10 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraffau (3) a (4) rhodder—

"(3) Nid yw ffi ond yn daladwy o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â chais tybiedig os ar y dyddiad perthnasol mewn cysylltiad â'r materion y datgenir yn yr hysbysiad gorfodi eu bod yn torri rheolaeth gynllunio—

(a) y byddai ffi wedi bod yn daladwy o dan y Rheoliadau hyn am gais am ganiatâd cynllunio a wnaed i'r awdurdod perthnasol; neu

(b) y byddai ffi wedi bod yn daladwy o dan Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Ffioedd) (Cymru) 2016 am gais am ganiatâd cynllunio a wnaed i Weinidogion Cymru.

(4) Swm y ffi yw—

(a) pan fyddai cais wedi ei wneud i'r awdurdod perthnasol, dwywaith swm y ffi a fyddai wedi bod yn daladwy mewn cysylltiad â'r cais; neu

(b) pan fyddai cais wedi ei wneud i Weinidogion Cymru, dwywaith swm y ffi a fyddai wedi bod yn daladwy i'r awdurdod perthnasol mewn cysylltiad â'r cais pe bai'r cais wedi ei wneud i'r awdurdod a phe bai'r datblygiad wedi dod o fewn paragraff 9(b) o Ran 2 o Atodlen 1."

(3) Ym mharagraff (9) ar ddiwedd is-baragraff (a) hepgorer "neu" ac ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"neu

(c) cyn y dyddiad y dyroddwyd yr hysbysiad gorfodi perthnasol, wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru o dan adran 62D o Ddeddf 1990 am ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef, ac wedi talu i Weinidogion Cymru y ffi sy'n daladwy pan wneir y cais hwnnw,".

(**1**) O.S. 2015/1522 (Cy. 179). Diwygiwyd rheoliad 10 gan O.S. 2017/528 (Cy. 111).